



Huw Irranca-Davies AS,  
Dirprwy Brif Weinidog ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid Hinsawdd a Materion Gwledig,  
Llywodraeth Cymru,  
**Stryd Pierhead,**  
Caerdydd, CF99 1NA

2ail o Fedi 2024

Annwyl Huw,

Rwyf yn ysgrifennu atoch i roi fy nghyngor i chi ynghylch y modd y mae'r Uwchgynhadledd Afonydd yn gweithio. Mae mater ansawdd dŵr ac afonydd yn destun pryder enfawr i'r cyhoedd ac yn un o'r materion y caf y mwyafrif o ohebiaeth yn ei gylch. Mae'n amlwg bod angen i ni reoli ein hafonydd a'n dyfrffyrdd mewn ffordd gynaliadwy ar gyfer cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol.

Tra bod y cyngor hwn yn ymwneud yn benodol â gwaith yr Uwchgynadledau Afonydd o gadw mewn golwg eu swyddogaeth bwysig, rwyf wedi ymrwmo i wneud ansawdd afonydd a dŵr yn flaenoriaeth ar gyfer fy amser yn y rôl hon ac rwyf yn gweithredu mewn meysydd eraill. Er enghraifft, byddwch yn ymwybodol fy mod hefyd yn gweithio gydag Asesydd Interim Diogelu'r Amgylchedd Cymru ar adolygiad i hyrwyddo'r modd y gall Cymru wella ei chyfreithiau i leihau llygredd dŵr a diogelu ein hamgylchedd ac iechyd pobl.

Wrth baratoi'r cyngor hwn, cyflogais wasanaethau'r Sefydliad Materion Cymreig (IWA) i fanteisio ar eu harbenigedd a'u gwrthrychedd. Siaradodd tîm yr IWA â llawer o'r rhanddeiliaid allweddol sy'n mynychu'r Uwchgynadledau Afonydd. Mae hyn wedi fy ngalluogi i roi cyngor ac argymhellion i chi sy'n cael cefnogaeth eang, ac yn aml iawn gonsensws ymhlith y sefydliadau perthnasol.

Amgaeaf yr adroddiad llawn sy'n rhoi rhagor o wybodaeth am y fethodoleg a ddefnyddiwyd wrth baratoi'r cyngor hwn yn ogystal â manylion llawn am y canfyddiadau a'r argymhellion. Mae'r pwyntiau allweddol yn fy nghyngor wedi'u crynhoi fel a ganlyn:

1. Rhaid i Lywodraeth Cymru adnewyddu ymrwymiad i Uwchgynadledau Afonydd o dan y Prif Weinidog ac Ysgrifennydd Cabinet i atgyfnerthu eu hygredd, eu diben a'u brys. Mae arweinyddiaeth wleidyddol, perchnogaeth ac atebolrwydd parthed mynd i'r afael â llygredd afonydd yn hollbwysig.
2. Dylai Llywodraeth Cymru ailddatgan pwrpas allweddol yr Uwchgynadledau, gan nodi cylch gwaith ehangach, sy'n ffocysu'n fwy eang ar iechyd afonydd, gan ystyried:
  - . Maetholion y tu hwnt i ffosffadau (a ddylai barhau i gael eu hystyried yn llygrwyr mawr), megis nitradau, amonia yn ogystal ag iechyd y pridd;
  - . Cynnwys afonydd y tu hwnt i afonydd ACA (Ardal Cadwraeth Arbennig) (er y dylai'r rhain barhau i fod yn flaenoriaeth, ond nid yr unig un);
  - . Ffocws y tu hwnt i effaith ar adeiladu tai a datblygu;
  - . Yr angen i ddal rhanddeiliaid i gyfrif yn ogystal â hybu'r gwaith o gyflawni'r camau gweithredu.



3. Dylai Llywodraeth Cymru ystyried:
  - . Adolygu ac adnewyddu strwythurau llywodraethu'r Uwchgynadleddau;
  - . Sefydlu is-grwpiau llai o randdeiliaid i fynd i'r afael â materion yn fanwl, gan adrodd yn ôl i'r Uwchgynhadledd Afonydd fel y fforwm troswaol.
4. Dylai Llywodraeth Cymru gyd-gynhyrchu map o rolau a chyfrifoldebau rhanddeiliaid o ran mynd i'r afael â llygredd afonydd, a gaiff ei gyd-gynhyrchu mewn Uwchgynhadledd Afonydd yn y dyfodol. Dylai hyn:
  - . Ddatgan rolau a chyfrifoldebau pob rhanddeiliad (gan gynnwys busnesau amaethyddol, cwmnïau dŵr, Bwrdd Rheoli Maetholion a rheoleiddwyr), a pherchnogaeth camau gweithredu;
  - . Nodi pwy sy'n cael eu hariannu i gyflwyno beth, a sut;
  - . Bod â ffocws hirdymor i roi sicrwydd.
5. Dylai Llywodraeth Cymru ddefnyddio'r Uwchgynadleddau Afonydd i egluro rôl Byrddau Rheoli Maetholion yn yr hirdymor. Dylai hyn anelu at sefydlu:
  - . Eu cylch gorchwyl hirdymor;
  - . Eu cyfrifoldeb am weithredu a mesur gwelliant ansawdd dŵr yn afonydd ACA a thu hwnt;
  - . Beth yw ei setliad ariannu hirdymor.
6. Dylai Uwchgynadleddau Afonydd yn y dyfodol ffocysu'n benodol ar roi trefniadau ariannu hirdymor ar waith ar gyfer mynd i'r afael â llygredd afonydd.
7. Dylai Uwchgynadleddau Afonydd yn y dyfodol roi mwy o ffocws ar allbynnau a thystiolaeth gan gynnwys:
  - . Data ar allbynnau prosiectau buddsoddi, gan gynnwys cwmnïau dŵr;
  - . Monitro effeithiol yn erbyn camau gweithredu;
  - . Darlenniadau rheoli maetholion i ddadansoddi gwelliant neu ddiffyg gwelliant;
  - . Cynhyrchu set glir o ddangosyddion cynnydd i'w cysylltu â gweithredu ar gyfer y dyfodol.
8. Dylai Uwchgynadleddau'r dyfodol arddangos dulliau mwy arloesol, seiliedig ar natur, o fynd i'r afael â llygredd afonydd a'u heffeithiolrwydd i'w cyflwyno'n gyflym ac ar raddfa fawr.
9. Dylai Uwchgynadleddau yn y dyfodol ffocysu ar gynhyrchu cynllun gweithredu clir ar gyfer mynd i'r afael â ffynonellau amaethyddol llygredd afonydd gan gynnwys:
  - . Cyfundrefnau cymhorthdal cyhoeddus i'r sector fynd i'r afael â llygredd;
  - . Cymorth wedi'i glustnodi i ffermydd fuddsoddi mewn datrysiadau sy'n seiliedig ar natur ochr yn ochr â chyllideb addysg i drwytho arfer gorau. Dylai hyn gwmpasu canllawiau a chymorth clir ac ymarferol ar gyfer y modd y gall ffermydd ddefnyddio arferion ffermio adfywiol sy'n seiliedig ar natur i gyfyngu ar golli maetholion, mabwysiadu dull storio styri effeithiol a lleihau'r hen ffosffadau mewn priddoedd;
  - . Cydymffurfio a gorfodi rheoliadau presennol.
10. Ystyried penodi Cadeirydd annibynnol ar gyfer Uwchgynadleddau Afonydd yn y dyfodol.
11. Rhaid i Uwchgynadleddau Afonydd wella'r modd y maent yn cyfathrebu ac ymgysylltu'n gyhoeddus. Mae iechyd afonydd a dyfrffyrdd yn fater sydd o gryn ddiddordeb i'r cyhoedd, ond eto ystyrir bod cyfathrebu o du Llywodraeth Cymru yn wael ac aneglur. Dylai Uwchgynadleddau'r dyfodol:
  - . Ddarparu rhestr glir o gamau gweithredu y cytunwyd arnynt ymhob Uwchgynhadledd;



Comisiynydd  
**Cenedlaethau'r  
Dyfodol**  
Cymru

**Future  
Generations**  
Commissioner  
for Wales

- . Ddarparu trosolwg ehangach o gyflwyniadau a wnaed;
- . Ar feysydd dadleuol, cyd-gynhyrchu ac ymgynghori â rhanddeiliaid, yn cynnwys aelodau'r cyhoedd.

12. Dylai Uwchgynadleddau Afonydd archwilio rôl hirdymor gwyddor dinasyddion sy'n arwain at weithredu tymor hwy ar dueddiadau a ganfuwyd.

Diolch am y cyfle i gyflwyno fy nghanfyddiadau cynnar yn yr Uwchgynhadledd Afonydd ddiwethaf yn Sioe Frenhinol Cymru. Fel y dywedais yn y cyfarfod hwnnw, rwy'n bwriadu rhannu'r llythyr hwn a'r adroddiad amgaeedig gydag aelodau'r Uwchgynhadledd Afonydd yn ogystal ag yn gyhoeddus mewn dull agored a thryloyw, sef gwerthoedd yr wyf wedi ymrwymo i'w hanrhydeddu wrth gyflawni'r rôl hon.

O gadw mewn golwg yr angen i weithredu ar frys i ddiogelu ein hafonydd a'n dyfrffyrdd ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol, gobeithiaf y gallwch chi a'ch tîm ystyried fy nghyngor yn ddioed gan fynd ati i wneud newidiadau mewn pryd ar gyfer yr Uwchgynhadledd Afonydd nesaf yn yr Hydref.

Os oes arnoch angen rhagor o wybodaeth, buaswn yn hapus i ddarparu hyn ar eich cyfer.

Yn gywir,

Derek Walker

Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru



Comisiynydd  
**Cenedlaethau'r  
Dyfodol**  
Cymru

**Future  
Generations**  
Commissioner  
for Wales